LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Medi / Hydref 2024 Cyfrol 95 Rhif 5

## Gweddi'r Cynhaeaf

Ein Duw a'n Tad,
yr wyt wedi trefnu fod pedwar tymor i'r flwyddyn;
wele ni yn awr yn troi tudalen ac yn croesawu tymor yr hydref:
tymor ffrwythau aeddfed a chnydau breision;
tymor cynhaeaf, diolchgarwch a dathlu;
tymor ailgychwyn ysgol, a choleg;
tymor y gobeithion a'r dechreuadau newydd,
tymor lliwiau euraid y coed a'r perthi,
tymor diosg y dail a byrhau golau dydd
a thymor paratoi ar gyfer gorffwys y gaeaf.

Cynorthwya ni, Arglwydd, i werthfawrogi dy haelioni
mawr yn nhrefn a phrydferthwch a chynnyrch y cynhaeaf,
ac i fynegi'n llawn ein diolchgarwch
am yr holl roddion a'r breintiau a osodaist arnom.

Cynorthwya ni i barchu dy gread,
i ymatal rhag rheibio a cham-drin y ddaear,
ac fel y bydd natur yn gorffwys ac yn cysgu,
dysg ninnau i gyd-fynd â rhod a phatrwm y tymhorau
ac i fod yn gydweithwyr cyfrifol â thi
ac yn stiwardiaid doeth o'r ddaear a'i chynnyrch.

Cyflwynwn i ti ysgolion a cholegau ein gwlad,
wrth iddynt ddechrau ar raglen newydd o ddysgu ac addysgu;
bendithia'r athrawon, y plant a'r myfyrwyr,
fel y byddant gyda'i gilydd yn tyfu mewn deall doethineb
ac yn eu paratoi eu hunain i fyw i'th wasanaethu di
trwy wasanaethu cymdeithas a chyd-ddyn.

Fel y bydd natur yn rhoi ei hun o flwyddyn i flwyddyn
mewn cynnyrch a ffrwythlondeb,
helpa ninnau i'n rhoi ein hunain mewn cariad ac ymroddiad
i ti, ein Duw, ac i waith dy deyrnas.
Yn enw Iesu. Amen.

*Elfed ap Nefydd Roberts*

## NEWYDDION

**Elusen** ⇨ Cytunwyd yn unfrydol mewn dau gwrdd eglwys ar Sul olaf Gorffennaf y byddwn yn cefnogi elusennau Marie Curie a Hosbis y Ddinas am y flwyddyn nesaf. Dechreuwyd ar y casglu ddydd Sul olaf Awst pan gynhaliwyd casgliad yn y ddwy oedfa undebol. Cyfanswm y casgliad oedd £275. Diolch i bawb am eu haelioni. Dechrau da i'r gronfa!

**Cleifion** ⇨ Rydym yn cofio'n dyner am y rhai sy'n derbyn triniaeth neu sydd dan ofal meddygol. Dymunwn wellhad buan i Malcolm a Jean Thomas.

**Llongyfarchiadau**


⇨ Ar y 6ed o Awst dathlodd Malcolm a Jean Thomas 64 mlynedd o fywyd priodasol. Anfonwyd ein cofion anwylaf atynt fel eglwys.

⇨ Hyfryd oedd gweld dau o'n haelodau yn cael eu hurddo i'r orsedd yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf ym Mhontypridd, sef Peter Spriggs a Lis Decaro. Enw gorseddol Peter yw Pedr Spartacus a Lis yw Lisabeth o'r Gadlys. Pedr Spartacus yw'r enw ddewisodd Peter am mai Pedr yw fersiwn Gymraeg ei enw ac am fod Spartacus yn enw beiddgar . Roedd y Spartacus hanesyddol (103-71AD) yn gymeriad beiddgar. Mae hefyd yn crynhoi anhysbysrwydd (neb) a chynhwysedd (pawb). Cafodd ei enwebu i'r orsedd am ei gyfraniad i gelfyddyd yng Nghymru. Cafodd ei enw gorseddol ei gymeradwyo gan y prifardd Aneirin Karadog, Pontyberem.

O ran Lis y rheswm am Lisabeth o'r Gadlys yw mai'r Gadlys ydy enw'r pentref gerllaw Aberdâr ble cafodd ei magu.

Pan oedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn RCT ddiwethaf, sef 1956, roedd tad Lis ar un o'r pwyllgorau trefnu. Fe yw'r unig un o'r holl bwyllgorau sydd dal yn fyw. Llynedd, fel rhan o seremoni cyhoeddi eisteddfod eleni, cafodd wahoddiad arbennig i gwrdd â Myrddin ap Dafydd. Roedd wrth ei fodd!

Gwnaeth Lis gais i ymuno â'r orsedd ar y sail bod ganddi radd yn y Gymraeg, ac fel teyrnged i'w thad. Yn anffodus doedd o ddim digon iach i ymweld â'r eisteddfod eleni Dymunwn yn dda iddo. (*Lluniau o Peter a Lis ar y dudalen gefn.)*



⇨ Dyweddïodd Carys Mair Jones a Nathan Richards ar 16eg o Awst. Dymuniadau gorau iddyn nhw i'r dyfodol.

⇨ Penblwydd Hapus arbennig iawn i Mair Evans, Maesglas ar ddathlu ei phenblwydd yn 102 oed ar 1af o Hydref.



Cian gyda'i chwiorydd, Elin ac Esyllt a'i frawd, Gwion.

⇨ Ar y 4ydd o Orffennaf enillodd Cian Llŷr radd dosbarth cyntaf, gydag anrhydedd mewn Athroniaeth – dyna wych!
Yna, dathlodd ei benblwydd yn 21oed ar 26ain o Orffennaf. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

**Cydymdeimlad**

⇨ Cydymdeimlwn gyda Shelagh a'i brawd David yn eu colled a'u hiraeth. Bu farw eu tad, John Hilling ym mis Awst.

## *Noson gymdeithasol yn Giovanni's*

**Una buona serata!**




Er treulio amser yn fy mlwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Bangor yn ceisio ymgyfarwyddo â'r iaith Eidaleg, mae'r cyfan (ychydig!) a ddysgais wedi hen ddiflannu o'm cof. Ond doedd hynny ddim yn broblem ar nos Wener, Medi 13, pan aeth criw o Ebeneser i fwyty Giovannis ar yr Ais i fwynhau pryd o fwyd.

Bwriad y noson, o dan ofal John Hayes ac eraill, oedd codi arian i gefnogi gwaith y Ganolfan Glyd. Beth yw'r Ganolfan Glyd? Menter ar y cyd rhwng nifer o eglwysi'r ddinas i gefnogi'r niferoedd cynyddol o bobl ddigartref yn y ddinas wrth gynnig pryd o fwyd cynnes, anghenion eraill megis dillad, a chyfle i fwynhau sgwrs a chymdeithas mewn awyrgylch gynnes. Cynhelir y gweithgarwch bob dydd Mercher a phrynhawn Sul yn festri Capel y Tabernacl ac mae nifer o wirfoddolwyr o gapel Ebeneser yn mynd yno'n gyson i gynorthwyo.

Bwyd hyfryd, sgwrs ddifyr, cwis adnabod lluniau enwogion, a lleoliad dinasoedd yr Eidal (rwy'n anobeithiol o ran daearyddiaeth a doeddwn i ddim wedi clywed am y peldroediwr Buffon!) a'r canlyniad calonogol ein bod wedi casglu dros £200 i gefnogi'r gwaith. *Una buona serata* yn wir, *(Lluniau ar y dudalen gefn.)*

***Catrin Roberts***

Mae'r **Ganolfan Glyd (YGG)** wedi ei leoli yn festri Eglwys y Tabernacl, Yr Ais. Mae'r ganolfan ar agor i'r di-gartref ac i'r anghenus bob prynhawn dydd Mercher, bore Sadwrn a phrynhawn dydd Sul. Mae tua 35-40 o bobl yn mynychu ar ddydd Mercher a rhwng 70 a 80 ar brynhawn ddydd Sul.

Gweledigaeth y Parchedig Rosa Hunt (Tabernacl) oedd defnyddio lleoliad ac adnoddau eglwys y Tabernacl i gynnig lloches a man diogel i'r di-gartref a'r anghenus yn y ddinas. Aelodau Eglwys y Tabernacl sydd yn gyfrifol ac yn gofalu am YGG ac mae eglwysi Cymraeg eraill yng Nghaerdydd a'r Fro yn cynnig gwirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith.

Mae tîm o wirfoddolwyr ymroddedig a gweithgar gan Ebeneser sydd yn cefnogi YGG; mae 2 neu 3 aelod o'r tîm yn gwirfoddoli yno pob dydd Mercher ac yna mae'r eglwys ar rota gyda'r eglwysi eraill i gynnig cefnogaeth ar y Sul yn gyfnodol, pob rhyw 5-6 wythnos.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'n gwirfoddolwyr am eu hamser a'u hymdrechion ac mae croeso i unrhywun gynnig eu henwau i John Hayes os am ymuno â'r tîm. Mae aelodau'r tîm yn aelod o grŵp 'WhatsApp' penodol ac mae'r holl waith trefnu yn digwydd drwy'r cyfrwng hwn.

Mae gwirfoddoli yn YGG yn golygu helpu gosod popeth yn ei le cyn bod y drysau yn agor; gweini te a choffi a'r bwyd cynnes sydd yn dod o dŷ bwyta Giovanni's, sydd drws nesaf i'r Tabernacl; clirio'r llestri a'u golchi ac yna clirio ar ddiwedd y sesiwn.

Yn bwysicach oll mae gwirfoddoli yn cynnig cyfle i ddod i adnabod unigolion bregus (mae nifer ohonynt yn dychwelyd pob wythnos), sgwrsio a gwrando, cynnig cymorth ymarferol drwy estyn dillad glân iddynt neu gynnig cyngor ar rhyw fater benodol.

Mae gwirfoddoli gyda'r digartref a'r anghenus yn gyfle ymarferol i weithredu neges Crist, 'câr dy gymydog fel ti dy hun' ac i gefnogi'r gwan a'r difreintiedig. Diolch i bawb sydd yn cyfrannu dillad yn achlysurol ar gyfer YGG, mae'r di-gartref mor ddiolchgar o'r rhoddion lleiaf; mae rhoi pâr o sanau glân yn nwylo person anghenus fel rhoi anrheg i blentyn ar ddydd Nadolig o ran eu hymateb.

Yn debyg i llynedd fe glustnodwn **dydd Sul, Hydref 27ain yn 'Sul y Sanau'** er mwyn medru casglu cymaint o sanau ag y medrwn i'r di-gartref ar drothwy'r gaeaf.

Mae gweithio yn YGG yn brofiad arbennig; dyn ni'n flinedig iawn, ond mae pawb yn teimlo eu bod wedi cyfrannu at wneud gwahaniaeth bach i fywydau rhai sydd heb ddim. Mae angen egni, dycnwch, gras, amynedd, trugaredd, empathi a sgiliau diplomataidd! ar adegau wrth wirfoddoli yn YGG, gan fod gymaint o amrywiaeth yn anghenion y bobl sydd yn dod yno.

Gofynwn yn garedig am eich gweddÏau i gefnogi gwaith YGG a'r tîm o wirfoddolwyr sydd yno pob wythnos.

**John Hayes.**

# Elusennau Ebeneser 2024-25

Fel eglwys rydym wedi dewis codi arian tuag at ddwy elusen yn ystod 2024 - 25, sef Marie Curie a Hosbis y Ddinas. Dyma ychydig wybodaeth am yr elusennau.

Mae elusen Marie Curie yn gwneud gwaith aruthrol trwy roi cymorth i bobl ar ddiwedd eu hoes. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar bob math o gymhlethdodau all godi gyda salwch marwol, e.e. ymarferol, ariannol, emosiynol a theuluol. Maent hefyd yn cynnal Hosbisau ac yn darparu nyrsys arbenigol. Y mae pawb ohonom wedi derbyn neu yn gwybod am rywrai sydd wedi derbyn cymorth gan Marie Curie. Ac wrth gwrs y mae nifer o'n ffrindiau yn Ebeneser, a fu farw yn ddiweddar, wedi derbyn cymorth ganddynt. Felly, y mae'n addas iawn ein bod yn codi arian tuag at yr elusen hon yn ystod y 12 mis nesaf.

*(Maria Salomea Skłodowska-Curie (1867 – 1934) oedd y fenyw gyntaf i ennill y Wobr Nobel, (am ei gwaith arloesol gydag ymbelydredd), y person cyntaf i ennill y Wobr Nobel ddwy-waith a hynny mewn dau faes gwyddonol gwahanol. Rydym yn ei chofio oherwydd ei gwaith ymchwil i ymbelydredd a oedd yn gam pwysig i ddatblygu peledr x.)*

Mae tîm Hosbis y Ddinas yn gofalu am gleifion ledled Caerdydd, gan gynnig cymorth hanfodol a rheoli symptomau eu salwch. Golyga hyn y gall pob person sy'n eu gofal fyw eu bywydau i'r eithaf cyhyd â phosibl. Bob mis, mae cleifion newydd yn cael eu cyfeirio at Hosbis y Ddinas am ofal. Maent yn gwneud gwaith aruthrol trwy helpu cleifion â diagnosis fel Canser, Dementia, Clefyd Niwronau Motor (MND), Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) neu afiechydon eraill sy'n cyfyngu ar fywyd.

Yr hyn sy'n gwneud Hosbis y Ddinas yn wahanol yw nad uned gwelyau ydyw. Yn hytrach, maent yn cynnig gofal a chymorth i gleifion yn eu cartrefi eu hunain, er y daw rhai i'r ganolfan yn yr Eglwys Newydd. Mae'r Ganolfan yn lle llachar, croesawgar a bywiog lle gwelir cymuned ar waith. Maent yn manteisio ar frwdfrydedd gwirfoddolwyr, a'r arian a gyfrannir gan eu cefnogwyr, i gefnogi teuluoedd yn lleol.

Am ragor o wybodaeth ewch i https://www.cityhospice.org.uk/

Y mae gweithgor wedi ei sefydlu gan Ebeneser i godi arian yn ystod y misoedd sydd i ddod sef Lis Decaro, Enfys Harding, Bethan Hayes, Dai Williams ac Alun Tudur.




## Tyrd i Deyrnasu

Eleni yn y Llusern rydym wedi bod yn ystyried pwysigrwydd gweddi fel rhan o fywyd dyddiol y Cristion ac fel gweithgarwch hanfodol ym mhob eglwys. Un o gyfarfodydd pwysicaf Ebeneser yw'r Cwrdd Gweddi, a gynhelir pob nos Lun yng nghaffi'r Methodistiaid. Mae hwn yn gyfarfod agored i bawb lle cawn gyfle i fyfyrio ar adnodau o'r Beibl, rhannu profiadau, trafod digwyddiadau, cynnig testunau gweddi a'u cyflwyno i'r Arglwydd gyda'n gilydd. Wrth fynychu cawn addoli Duw a thyfu yn ein ffydd a'n dealltwriaeth o ryfeddod Iesu Grist. Os hoffech fod yn aelod o griw WhatsApp y Cwrdd Gweddi, anfonwch neges at Alun ar 07814 536208.

Y tro hwn rydym am edrych ar y rhan nesaf o'r weddi roddodd Iesu fel canllaw gweddi inni. Y cymal nesaf yw:

Deled dy deyrnas; gwneler dy ewyllys, ar y ddaear fel yn y nef. Math. 6: 10 BCND

Dŷn ni eisiau i ti ddod i deyrnasu, ac i'r cwbl sy'n dda yn dy olwg di ddigwydd yma ar y ddaear fel mae'n digwydd yn y nefoedd. Math. 6: 10 beibl.net

## Deled dy deyrnas

Wrth weddïo'r geiriau hyn rydym yn mynegi'r dyhead i Dduw ddod i deyrnasu'n llwyr yn y greadigaeth a'r byd, yn ein cymdeithas ac ym mywydau unigolion. Rydym yn byw mewn byd syrthiedig sy'n llawn eilunaddoliaeth, materoldeb, trachwant, gwrthdaro, creulondeb, tristwch, salwch, newyn, a thrais. Nid dyma yw bwriad Duw ar ein cyfer. Ei fwriad Ef oedd ein bod yn byw mewn byd o ddedwyddwch, digonedd a thangnefedd. Ac mae hynny yn golygu fod yn rhaid i Dduw fod yn teyrnasu trosom. Dyma pam y daeth i'n plith ym mherson yr Arglwydd Iesu. A phan mae teyrnas Dduw yn dod, fe ddaw â newyddion da, achubiaeth, a gobaith. Fe ddaw â chariad, cyfiawnder a thangenfedd. Rhyw ddydd bydd y deyrnas yn dod yn ei chyflawnder yn yr Iesu. Mae'r cymal nesaf yn ategu hyn, ...

## Gwneler dy ewyllys

…ac i'r cwbl sy'n dda yn dy olwg di ddigwydd yma ar y ddaear fel mae'n digwydd yn y nefoedd.

Yma fe weddïwn y bydd ewyllys Duw yn cael ei wneud yn ein plith. Wrth ofyn bod ewyllys Duw yn cael ei wneud mae hyn yn golygu ildio ein hewyllys ni ein hunain i ewyllys Duw. Nid yw hyn yn beth rhwydd i'w wneud oherwydd y mae'n cymryd ffydd. Yn aml fe weddïwn am bethau penodol ac nid yw ein gweddi yn cael eu hateb fel y dymunem. Un rheswm am hyn yw nad yw ewyllys Duw yn unol â'n hewyllys ni. Gall hyn achosi i bobl gefnu ar Dduw gan eu bod tybio nad yw'n gwrando ar eu gweddïau. Mae hyn yn hunandybus oherwydd y gallwn gredu ein bod ni yn gwybod yn well na'r Duw hollalluog beth ddylai ei wneud. Wrth weddïo rhaid cydnabod bod Duw yn gwybod yn well na ni. Felly, rhaid ildio ein hewyllys i'w ewyllys Ef. Yr enghraifft amlwg o hyn yw Iesu yn Gethsemane, Yno dywedodd Iesu,

"Dad, os wyt ti'n fodlon, cymer y cwpan chwerw yma oddi arna i. Ond paid gwneud beth dw i eisiau, gwna beth rwyt ti eisiau." - Luc 22:42.

Mae Iesu yn gofyn i'w Dad gymryd y dioddefaint chwerw yr oedd i'w brofi ar y groes oddi arno, ond yna fe ychwanega, "paid gwneud yr hyn dwi eisiau, ond beth wyt ti ei eisiau." Mae hyn yn anodd ac yn gofyn am ffydd yn sofraniaeth Duw. Rhaid sylweddoli y gall gweddi fod yn anodd, yn enwedig pan na chawn yr hyn yr ydym yn ddyheu amdano. Yn waelodol, ewyllys Duw yw fod pobl yn ei garu Ef ac yn caru ei gilydd. Rydym am i'r ddaear fod fel y nef. Sut le yw'r nefoedd? Wel, yno mae Duw yn teyrnasu yn ei gariad a'i berffeithrwydd, lle nad oes dioddefaint, tlodi, salwch, marwolaeth, gwrthdaro, anhapusrwydd na galar. Felly, rydym yn gweddïo ar i'r ddaear fod felly, gan weithio yn erbyn y pethau hynny sy'n tanseilio ewyllys Duw. Gwneud y ddaear fel y nef ac fe ddigwydd hynny trwy Iesu Grist.

Y tro nesaf fe edrychwn ar ail ran Gweddi'r Arglwydd.



## Chwyldro digidol

Yn hanes dynoliaeth y mae nifer o chwyldroadau byd-eang wedi digwydd. Datblygiad amaethyddiaeth a'r ddawn i gynhyrchu cnydau, yr aroleuo a hefyd y chwyldro diwydiannol, dyfodiad y trên, trydan, ac awyrennau. Ond yn ddiweddar rydym ni fel cenhedlaeth wedi bod yn dystion i chwyldro arall sef y Chwyldro Cyfrifiadurol neu ddigidol.

**Mewn trawiad amrant**

Ond wrth gwrs mae hyn i gyd wedi digwydd mewn cyfnod eithriadol o fyr. Pan oeddwn i yn yr ysgol uwchradd yn y 70au roedd y cyfrifiaduron cyntefig oedd yno yn defnyddio cardiau i'w rhaglennu ac yn gweithio (yn eithriadol o hamddenol) trwy gysylltiad ffôn a chyfrifiadur y Brifysgol. Ystyriwch hyn. Ar y 6ed o Awst 1991 fe ryddhaodd Tim Berners-Lee yn rhad ac am ddim y cod oedd yn galluogi pobl i greu a gweld tudalennau ar y we ynghyd â'r porwr gwe cyntaf. Yna datblygodd pethau'n eithriadol o chwim. Ymddangosodd Google ar ein sgriniau am y tro cyntaf ar y 4ydd o Fedi 1998. Lansiwyd Facebook ar y 4ydd o Chwefror 2004 gan Zuckerberg, Eduardo Saverin, Andrew McCollum, Dustin Moskovitz, a Chris Hughes. Cofrestrwyd Youtube ar y 14eg o Chwefror 2005. Sefydlwyd WhatsApp ym mis Chwefror 2009 gan Brian Acton a Jan Koum. Gwelodd Instagram olau dydd ar y chweched o Hydref 2010 a dim ond ym mis Medi 2016 y ganwyd TikTok, sy'n cael ei ddefnyddio bellach gan 1 biliwn o ddefnyddwyr yn fisol. A bellach y mae'r rhain ar ffonau symudol biliynau o bobl yn fyd-eang a'u dylanwad yn enfawr ar unigolion a chymdeithas.

Ar ben hynny ni all llywodraethau reoli beth yw'r cynnwys a roddir arnynt oherwydd eu bod yn gyfryngau agored, (h.y. gall unrhyw un roi deunydd arnynt yn ddilyffethair), maent hefyd yn croesi ffiniau rhyngwladol ac ni ellir eu ffrwyno. A thestun pryder i lawer yw'r dylanwad sydd ganddynt ar unigolion ac, yn enwedig, ar blant a phobl ifanc.

**A.I.**

Y datblygiad diweddaraf yw Deallusrwydd Artiffisial (AI) sydd eto'n wych ac yn frawychus ar yr un pryd. Fe gymer amser i ddynoliaeth ymateb i hyn a gweld ei wir arwyddocâd. Yn sicr y mae yn newid ein ffordd o fyw. Dau gan mlynedd yn ôl roedd yn cymryd wythnosau i newyddion deithio o'r cyfandir i Gymru. Bellach gellir bod yn dyst trwy ffrwd byw i ddigwyddiadau mewn unrhyw ran o'r ddaear.

**Sut y mae yn effeithio arnom?**

Mae'r goblygiadau'n enfawr. Mae'r dechnoleg hon yn galluogi pobl gyda'r un diddordeb i gysylltu yn rhwydd gyda'i gilydd dros ffiniau gwledydd a chyfandiroedd, gan greu cymunedau o bobl debyg. Bellach mae pobl weithiau gyda mwy o gonsyrn am yr hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill nac yn eu cymunedau eu hunain. Gall hyn fod yn beth da neu'n beth niweidiol. Am y tro cyntaf erioed gall dylanwad pobl o'r tu allan i'n cylch cydnabod fod yn drymach ar unigolion na'u heglwysi, eu cymuned a'u teuluoedd. Mae hyn yn achosi pryder eithriadol o bryderus wrth feddwl am blant ac ieuenctid. Ar hyn o bryd nid oes posibl ffrwyno'r deunydd ar ein teclynnau ac o ganlyniad gallwn weld, clywed a darllen pethau drwg, ffiaidd a niweidiol. Mae hyn yn peri gofid oherwydd gall y cyfryngau cymdeithasol danseilio teuluoedd, cymunedau, eglwysi a gwladwriaethau.

**Algorithms**

Yn gefn i'r modd y mae'r meddalwedd yn gweithio ar ein technoleg y mae'r algorithms. Mae'r rhain yn cywain gwybodaeth amdanom ac am ein harferion gwylio, gan addasu'r hyn sydd yn ein ffrydiau fel ein bod yn derbyn pethau tebyg neu hysbysebion gan gwmnïau masnachol gyda chynnyrch y tybient sydd at ein dant. Trwy'r algorithms gall llywodraethau, cwmnïau neu ddrwgweithredwyr dargedu pobl er mwyn eu bwydo gydag egwyddorion, daliadau gwleidyddol neu gynnyrch i'w gwerthu. Hefyd wrth gwrs y tebygolrwydd yw bod modd ysbïo arnom trwy ein teclynnau yn ôl y galw ac o bosib y mae'r gall yr wybodaeth yn cael ei werthu i gwmnïau.

**Doethineb**

Ond beth yw ein hymateb fel Cristnogion i hyn? Rhaid bod yn synhwyrol gall, gan sylweddoli na allwn wrthsefyll y don dechnolegol. Gallwn eu defnyddio fel cyfryngau i rannu'r newyddion da am Iesu, a rhaid bod yn ddiwyd yn gwneud hynny. Ond hefyd rhaid bod yn ddoeth ac ar ein gwyliadwriaeth rhag dylanwadau drwg sy'n tanseilio ffydd ac sy'n groes i ewyllys Duw. Yn hyn o beth rhaid annog ein gilydd i osgoi treulio gormod o amser yn rhythu fel lloi ar bethau disylwedd a diffaith ar ein ffonau a'n cyfrifiaduron gan neilltuo amser i ddarllen ein Beibl, (gellir gwneud hynny ar y ffôn) gweddïo, addoli a gwasanaethu ein cyd-ddyn. Rhaid rhybuddio plant a phobl ifanc am y pethau drwg a niweidiol ar y cyfryngau hyn sy'n gallu eu niweidio.

Gwn mai dim ond crafu'r wyneb ydwyf yn yr erthygl hon. Ond yn y Chwyldro hwn y mae pethau pwysig y dylem eu hystyried a'u gwyntyllu. Rwy'n siŵr bod rhai o ddarllenwyr y Tyst yn llawer mwy gwybodus na fi yn y maes hwn. Beth am i chi anfon gair sy'n datblygu'r drafodaeth hon ymhellach?

## Oedfa 15 munud

Gall bywyd fod yn brysur iawn y dyddiau hyn a phob dydd yn llawn i'r ymylon. Efallai eich bod yn gweithio neu gyda gweithgarwch amgen ar ddydd Sul ac yn methu neilltuo amser i addoli. Oherwydd hyn, rydym yn cychwyn cyfres newydd o gyfarfodydd amser cinio: 1.00 - ar ddydd Iau cyntaf bob mis, yn neuadd y Methodistiaid, Yr Eglwys Newydd. Bydd y sesiynau yn parhau am 15 munud ac ar agor i unrhyw un sydd am ymuno. Cyfle i ymdawelu a rhoi ein bywyd yn nghyd-destun Duw a'i gariad.

Sesiynau nesaf: 3ydd Hydref o 1.00 – 1.15
6ed Tachwedd o 1.00 – 1.15 a 4ydd Rhagfyr o 1.00 – 1.15

Bydd sesiynau Llanllanast yn ail-gydio ym mis Hydref yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Sesiynau bywiog ar gyfer plant a'u teuluoedd yn llawn bwrlwm, crefftau, cymdeithasu, stori o'r Beibl, a bwyd. Dewch i ymuno gyda ni, byddai'n wych cael eich cwmni. Cynhelir yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd,CF14 1AD

Sesiynau nesaf:
20fed Hydref, 10.00 y bore. Pob oed.
17eg Tachwedd, 10.00 a 15ed Rhagfyr, 10.00.

---

## Cyfarfodydd Angor

**Diolch i Dduw am:**

- Ei ffyddlondeb wrth i'r gwaith sefydlu yn Grangetown.
- Cyfle i gymuno gyda, a chlywed gan, genhadwr i'r gymuned Fwslemaidd yn Grangetown.
- Cyfle i weddïo gydag eglwysi eraill Grangetown (noson ar y cyd).
- Cyfle i weddïo gydag Ebeneser (12 awr).

**Ymunwch gyda ni i weddïo am:**

- Y gwaith plant ac am wirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith ar y Sul.
- Am wynebau newydd i ymuno ac i rai o'r ardal sydd ddim eto yn nabod Iesu i'w gyfarfod a'i adnabod.
- Dros y misoedd nesaf bydd: Cyfres arall o bregethau ar Efengyl Marc.
- Myfyrwyr yn ail-ymuno ac yn cael cyfleoedd i arwain.
- Roedden ni wedi gobeithio dechrau clwb plant ond nid yw hynny yn edrych yn debygol y tymor nesaf - hyderwn bydd cyfle i ddechrau hwn yn y dyfodol agos.




# Calendr

Cynhelir oedfa’r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD.

Cynhelir oedfa’r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA. .

Cynhelir Angor ar yr ail ar pedwerydd Sul o bob mis yn Bay Church, Corporation Rd, Grangetown am 4:30yp.

Pob nos Lun am 7.30 y,h., cynhelir y cwrdd gweddi yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

## Suliau mis Hydref a Tachwedd

**6 Hydref** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun.

**13 Hydref** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Rhodri Glyn, Bangor. (Cyfarfodydd Pregethu)

**20 Hydref** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun.

**27 Hydref** - 10:00yp CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Oedfaon dan ofal Iwan Rhys Jones, Penybont-ar-Ogwr.

**3 Tachwedd** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun.

**10 Tachwedd** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun.

**17 Tachwedd** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun.

**24 Tachwedd** - 10:00yp yn CEN dan ofal Ifan Roberts / Catrin Roberts a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Glyn Tudwal Jones, Caerdydd.

Pedr Spartacus



Dau aelod yn cael eu hurddo i'r orsedd yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024 ym Mhontypridd.

Lisabeth o'r Gadlys



Noson gymdeithasol yn Giovannis









